


# ADOLYGIADAU

**Cam o'r Tywyllwch - Hunangofiant**  
Rhys Mwyn, Y Lolfa, 215 tud. £9.95

**M**ae Rhys Mwyn yn gymeriad unigryw sy'n sefyll ar ben ei hun o'r gweddill ond mae'n berson sydd efo rhywbeth i'w ddweud, hefyd. Dyna yn union yw ei hunangofiant *Cam o'r Tywyllwch* a dyna sy'n gwneud hunangofiant da - rhywun sy'n ddiflewyn ar dafod. Mae ganddo sawl



beirniaid yn y Sîn Roc Gymraeg a sawl person sydd yn ei gasau am wahanol resymau. Ond beth bynnag yw eich barn am y gwron hwn o Sir Drefaldwyn, mae unigolion lliwgar fel hyn yn chwa o awyr iach mewn byd diflas, undonog, unffurfiol. A dyna'n union yw'r gyfrol hon. Mae wedi'i hysgrifennu yn null cyfarwydd ac unigryw Rhys Mwyn.

Cafodd Rhys Thomas, fel yr enwyd ef gan ei rieni, ei fagu yn nhawelwch Llanfair Caereinion, ymhell o anarchiaeth y Sin Byn ym Merlin. Ond mae'r gyfrol hon yn olrhain yr hanes pan ddaeth cerddoriaeth pync yn ddihangfa iddo o'r bywyd saff Cymraeg. Yn ystod ei ddyddiau ysgol, mae'n cyfeirio at y cyfnod pan gafodd ei fwlio a bod hynny, ymhen amser, wedi ei galedu, i sefyll dros yr hyn mae'n gredu. O'r cam cyntaf un, taflu "grenade diwylliannol" ar y Gymru Gymraeg saff, oedd ei fwriad, a gwnaeth hynny gydag arddeliad. Gyda'i frawd, Sion Sebon, sefydlwyd yr Anrhefn, a daeth yn uchelseinydd i'r sin danddaearol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd. Un o'i brif lwyddiannau oedd mynd ati i greu albym amlgyfrannog o'r enw *Cam o'r Tywyllwch* oedd yn cynnwys enwau fel *Datblygu*, *Tynal Tywyll* a'r *Cyrff*, ar y record. Trwy ei ddyfalbarhad, fe ddaeth yr enwau hyn yn gyfarwydd i DJ's fel John Peel ar Radio 1, a dyna lle y cafwyd y llwyfan iddynt arddangos


eu talentau y tu allan i Gymru. O ganlyniad, camodd bandiau newydd cyffrous allan o Gymru i fyd diarth cerddoriaeth ryngwladol a chael eu cludo yn ddiweddarach ar don i bellafodd yr hen Ddwyrain Ewrop.

Erbyn heddiw, mae'r genhedlaeth newydd o gerddorion yn y Sin Roc yn dueddol o ddilyn ôl traed Rhys Mwyn drwy gicio yn erbyn y tresi. Fel yr oedd ef ar y dechrau yn casau Edward H. a Maffia Mr Huws o'i flaen, mae'r genhedlaeth bresennol yn gweld hi'n ffasiynol i golbio Rhys Mwyn a'i debyg. Oes yna wers i'w dysgu yma, neu ai dyna drefn naturiol pethau? Dwi'n credu fod gan Rhys Mwyn gyfraniad anferth i'w wneud i fandiau ifanc heddiw, yn eu dysgu am y rhwystrau sy'n dod mewn roc a rôl yn dilyn ei brofiad gyda'r *Anrhefn* ac yn rheoli *Catonia*. Ond y cwestiwn yw, a oedd ei gysylltiad gyda bandiau merched fel *TNT* a *Haydn Holden* wedi bod yn gamgymeriad, gan achosi i rai o fandiau mwy gwrthryfelgar a 'cwl' y Sin Roc droi eu cefn ar ei ddoethineb? Er mwyn amddiffyn Rhys Mwyn i raddau, tua'r un cyfnod roedd band ifanc o Lanberis, y *Gogz*, dan ei adain ac erbyn hyn maent yn perfformio dan yr enw *Heights* ar lwyfannau mawr y tu hwnt i Gymru. Felly, o bosib, mae hynny yn ateb fy nghwestiwn.

Oedd, mi roedd Rhys Mwyn reit ynghanol cyfnod cyffrous yr 1980au gyda Wal Berlin yn dal yn sefyll a Thatcher mewn grym. O ferw'r cyfnod y daeth radicaliaeth ein bandiau Cymraeg megis *Datblygu*, *Anrhefn* a *Ffa Coffi Pawb*. Bellach, mae apathi yn rhemp, a bandiau'n gyffredinol yn fwy masnachol eu natur yn hytrach na gwleidyddol. Er bod y Sin Roc wedi profi adfywiad yn y blynyddoedd diwethaf, mae ei dylanwad y tu allan i Gymru yn llai o lawer, ac ystyried mai dim ond dau neu dri o fandiau Cymraeg sy'n perfformio'n gyson y tu allan i ffiniau Cymru, heb sôn am y tu allan i Brydain. Mor wahanol oedd yr 1980au gyda'r Cyrff yn neg uchaf siart roc Gwlad Pwyl! A fedrwch chi enwi un band sy'n canu'n wleidyddol bellach, fel oedd yr *Anrhefn* neu *Datblygu*? Cenhedlaeth Rhys Mwyn oedd y genhedlaeth radicalaidd olaf a dyna pam fu'n raid i Rhys Mwyn Plc ailddyfeisio ei hun i oes newydd. Credai y Bonwr Mwyn, mae'n siwr, os oedd am oroesi, fod raid iddo newid a chofleidio pop masnachol. A dyna wnaeth.

**Dyfal Donc, hunangofiant Hilda Hunter,**  
Y Lolfa, 120 tud., pris £4.95

**M**ae hunangofiannau yn codi fel grawn unnos y dyddiau hyn, ac alla'i ddim peidio â meddwl, beth yn y byd mawr sydd gan hwn neu hon i'w gofnodi am ei fywyd a fydd o ddiddordeb ac o bwys mawr i'r ddynoliaeth. Fel rheol, trafod a chlodfori eu gorchestion eu hunain y maen nhw, ac yn cael sylw am gyfnod byr iawn yn eu hoes pan fyddan nhw'n cael eu hystyried yn 'sêr.' Nid felly yr hunangofiant hwn.



Hilda Hunter - Saesnes, a fagwyd yn ardal Y Wlad Ddu, Canolbarth Lloegr, yn ysgrifennu ei hunangofiant yn Gymraeg, a hithau dros ei phedwar ugain! Mae hi'n ddynes ryfeddol, ac ni ellir ond ei hedmygu am ei safiadau, ei hunplygrwydd, a'i chadernid wrth wynebu'r anawsterau dirif a gododd yn ystod ei hoes fel cerddor proffesiynol.

Mae'r hanes yn dechrau yn 1937, a hithau ar fin gadael yr Ysgol Ramadeg, ac wedi ymgeisio am swydd yn *Swyddfa'r Post* yng nghanol Birmingham fel Telegraffydd.

Meddai: 'Roedden ni newydd ddod o'n cyfarfod boreol diwethaf. Fel arfer roedd dagrau wedi cael eu bwrw yn ystod canu'r emyn 'Dan dy fendith wrth ymadael / Y dymunem Arglwydd fod' yn ôl traddodiad ein rhagflaenwyr ar ddiwedd rhyw saith mlynedd o waith caled a bywyd hapus yn yr ysgol hon...Teimlwn yn bryderus dan fygythiad y dyfodol tywyll - wedi fy ngollwng ond heb fendith.

Wedi cyfnod eithaf anhapus yn *Swyddfa'r Post* cafodd swydd mewn cwmni a gynhyrchai bibellau dur, ond er nad oedd y gwaith hwn wrth ei bodd hi, ychwaith, llwyddodd i ddal ati gyda'i phrif ddiddordeb, sef, Cerddoriaeth, a dyna sy'n lliwio ac yn llywio ei bywyd o hyn ymlaen.

Roedd haf 1945 yn 'garreg filltir'.....Cefais fy nerbyn fel myfyriwr Cerddoriaeth i Brifysgol Birmingham. At hynny dyfarnwyd ysgoloriaeth i mi fel cydnabyddiaeth o'm henw da fel oböydd. A dyna sut y deuthum yn athrawes yn Ysgol Gerddoriaeth Birmingham ac yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Birmingham ar yr un pryd, heb sôn am fy ngyrfa fel oböydd Proffesiynol ym mhob man.'

Erbyn 1955 roedd hi wedi cyrraedd Aberystwyth wedi iddi gael gwahoddiad gan yr Athro Ian Parrott i weithio fel Tiwtor Piano ac Offerynnau Chwyth, a Llyfrgellydd yr Adran. Mae'r cyfnod hwn yn ei hanes hi yn ddiddorol dros ben i ni'r Cymry, ac yn werth ei ddarllen. Yma,eto, gorfu iddi wynebu sawl rhwystr, a datgelir cadernid ei chymeriad hi wrth ymdopi ag anghyfiawnder ac annhegwch. (Parhâd ar y dudalen nesaf)